

## CRYNODEB DRAFFT

### GWYNGALCHU ARIAN

- 1.1 Mae gwyngalchu arian, yn gyffredinol, yn disgrifio prosesu (neu “wyngalchu”) eiddo troseddol er mwyn cuddio ei darddiad gwreiddiol. Amcangyfrifir bod graddfa arian troseddol sydd wedi'i wyngalchu sy'n effeithio ar y Deyrnas Gyfunol bob blwyddyn yn ddegau o biliynau o bunnoedd.<sup>1</sup>
- 1.2 Mae'r wybodaeth sy'n cael ei darparu gan unigolion a'r sector preifat yn hollbwysig i helpu asiantau gorfodi'r gyfraith i nodi enillion troseddau, ac ymchwilio i wyngalchu arian a throseddoldeb yn gyffredinol. Er mwyn galluogi'r llif wybodaeth hon, mae gan y DU broses statudol sy'n annog neu'n mynnu bod pobl yn datgelu gwybodaeth i asiantau gorfodi'r gyfraith mewn amgylchiadau perthnasol. Mae banciau, er enghraifft, yn monitro gweithgarwch anarferol ar draws y cyfrifon maent yn eu gweinyddu. Mae'n ofynnol i gyrff perthnasol, yn unol â Deddf Enillion Troseddau 2002 (POCA) i ddarparu gwybodaeth i Uned Gwybodaeth Ariannol y DU (“UKFIU”) (rhan o'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (“NCA”)) pan fyddant yn amau bod yr arian dan sylw yn gysylltiedig â throseddau.<sup>2</sup>

**Amcangyfrifir bod gwyngalchu arian domestig yn costio £255 y flwyddyn i bob cartref yn y DU ac mae'n galluogi i droseddwyr elwa ar eu troseddau.**

1.3 Mae datgeliadau gofynnol a gwirfoddol yn rhoi gwybodaeth a chudd-wybodaeth i'r awdurdodau am wyngalchu arian a throseddoldeb yn gyffredinol. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r awdurdodau ymyrryd yn gynnar er mwyn rhewi neu atal asedau, neu darfu ar weithgarwch troseddol. Mewn rhai amgylchiadau, mae adroddwyr sy'n delio ag eiddo troseddol tybiedig yn cael eu gwarchod rhag atebolrwydd troseddol posib am drosedd gwyngalchu arian os byddant yn gwneud datgeliad gwirfoddol ac yn gweithredu gyda chaniatâd.<sup>3</sup> Mae'n hollbwysig bod gan y DU fframwaith deddfwriaethol cadarn i hwyluso dulliau adrodd am wyngalchu arian a throseddoldeb cyffredinol. Mae'n bwysig bod y system yn gweithredu mewn ffordd deg, effeithiol ac effeithlon. Fodd bynnag, mae rheswm da dros gredu nad yw'r drefn bresennol yn gweithredu cystal ag y gallai.

### EIN HADOLYGIAD O'R DREFN DDATGELU

1.4 Yn 2017, cytunodd Comisiwn y Gyfraith gyda'r Swyddfa Gartref i adolygu a gwneud argymhellion i ddiwygio agweddau cyfyngedig trefnau'r DU yn erbyn gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth. Yn benodol, gofynnwyd i ni ystyried a oes cyfle, o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, i ddiwygio'r system datgeliadau gwirfoddol, sef y “drefn ganiatâd”.

1.5 Fel rhan o'n hadolygiad o'r drefn ganiatâd bu i ni ystyried:

- Rhan 7 Deddf Enillion Troseddau 2002; a

<sup>1</sup> Llywodraeth EM, Strategaeth Troseddau Trefnedig Difrifol (2018), t 14.

<sup>2</sup> Gweler Deddf Enillion Troseddau 2002, isadran 330-332 ac Atodlen 9.

<sup>3</sup> Gweler Deddf Enillion Troseddau 2002, isadran 327(2)(a), 328(2)(a), 329(2)(a) a 338.

- Rhan 3 Deddf Terfysgaeth 2000.
- 1.6 Prif ddiben yr adolygiad yw gwella dulliau atal, canfod ac erlyn gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth yn y DU.
  - 1.7 Mae fersiwn llawn yr Adroddiad Terfynol ar gael yn [www.lawcom.gov.uk](http://www.lawcom.gov.uk).

**“Rydym yn croesawu’r adolygiad hwn ac rydym wedi ymgysylltu â thîm Comisiwn y Gyfraith i’w helpu i ddeall gweithrediad y darpariaethau cyfreithiol presennol. Rydym yn cydnabod llawer o’r problemau tybiedig yn y drefn bresennol ac yn croesawu nifer o’r argymhellion”** – Ymateb i ymgynghoriad yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol

### SUT MAE ADRODD GWEITHGARWCH AMHEUS?

- 1.8 Mae deddfwriaeth yn gwahaniaethu rhwng dau fath o ddatgeliad: “datgeliadau gofynnol” a “datgeliadau gwirfoddol (“awdurdodedig”)”.<sup>4</sup> Y drefn a ddefnyddir ar gyfer gwneud datgeliad o’r fath drwy gyflwyno “adroddiad gweithgarwch amheus” (“SAR”) i’r UKFIU.
- 1.9 Os bydd adroddwr yn gwybod neu’n amau, neu os bydd ganddynt sail resymol i wybod neu amau bod person yn gysylltiedig â gwyngalchu arian, mae’n ofynnol iddynt ddatgelu eu hamheuaeth i’r UKFIU mewn rhai amgylchiadau. Gelwir hyn yn “datgeliad gofynnol”. Os na wneir datgeliad gofynnol, mae’r person a ddylai fod wedi’i adrodd (e.e. y swyddog banc perthnasol) yn agored i gael ei erlyn am drosedd.
- 1.10 Mae “datgeliadau awdurdodedig” yn cael eu cynhyrchu pan fydd unigolyn yn amau eu bod wedi dod ar draws eiddo troseddol. Yn fwyaf cyffredin, bydd hyn yn digwydd wrth wneud busnes neu ddarparu gwasanaethau proffesiynol neu fancio. Gall unigolyn sy’n amau eu bod yn ymdrin ag enillion trosedd geisio caniatâd priodol gan UKFIU i gwblhau trafodiad a allai, fel arall, fod yn drosedd gwyngalchu arian.<sup>5</sup> Er enghraifft, pan fydd swyddog banc yn amau bod eiddo troseddol mewn cyfrif, gellir datgelu’r ffaith honno i’r awdurdodau a chael caniatâd i barhau i brosesu trafodion perthnasol.
- 1.11 Mae gan y broses o geisio a sicrhau caniatâd swyddogaeth ymarferol, ei bwriad yw diogelu’r rheini a fydd yn anochel yn dod ar draws eiddo troseddol tybiedig wrth wneud busnes neu mewn capasiti proffesiynol. Er enghraifft, pan fydd swyddog banc yn amau bod eiddo troseddol mewn cyfrif, gellir datgelu’r ffaith honno i’r awdurdodau a chael caniatâd i barhau i brosesu trafodion perthnasol.
- 1.12 Mae gan ddatgeliadau awdurdodedig swyddogaeth ddeublyg: mae’r ddwy yn darparu gwybodaeth i asiantau gorfodi’r gyfraith (heddluoedd yn y rhanbarth perthnasol), ac yn gwarchod yr adroddwr rhag atebolrwydd troseddol perthnasol drwy ei eithrio o’r drosedd gwyngalchu arian sydd wedi’i chyflawni. Gelwir y broses hon yn “drefn ganiatâd”.
- 1.13 Mae’r UKFIU yn hwyluso’r broses ddatgelu drwy weithredu fel cyfryngwr ar gyfer gwybodaeth rhwng y sector preifat ac asiantau gorfodi’r gyfraith. Ychydig iawn o

<sup>4</sup> Deddf Enillion Troseddau 2002, Rhan 7 a Rhan 3 Deddf Terfysgaeth 2000.


<sup>5</sup> Neu drosedd cyllido terfysgaeth

waith prosesu sydd ei angen ar gyfer datgeliadau gofynnol. Ar y llaw arall, mae'n rhaid i ddatgeliadau awdurdodedig gael eu dadansoddi gan UKFIU a'u trosglwyddo i asiantau gorfodi'r gyfraith a fydd yn ymchwilio ac yn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach. Er mwyn galluogi UKFIU i wneud penderfyniadau gwybodus i ganiatáu'r trafodiad, gwaherddir yr adroddwr – i bob diben – rhag prosesu'r trafodiad amheus ar ôl cyflwyno'r SAR, a bydd y cyfrif yn cael ei rewi o'r pwynt hwnnw. Os bydd yr adroddwr yn gweithredu heb ganiatâd, gallai fod yn cyflawni trosedd gwyngalchu arian. Mae'n rhaid i'r UKFIU wneud penderfyniad i roi caniatâd o fewn saith diwrnod gwaith.<sup>6</sup>


---

<sup>6</sup> Mae caniatâd tybiedig hefyd yn gallu codi pan (1) na fydd unigolyn sy'n gwneud datgeliad awdurdodedig yn cael ei hysbysu cyn diwedd cyfnod yr hysbysiad statudol – sef saith diwrnod – nad oes ganddo hawl i wneud y weithred. Edrychwch ar Ddeddf Enillion Troseddol 2002, adran 335(2) a 335(3); neu (2) pan fydd unigolyn sy'n gwneud datgeliad awdurdodedig yn cael ei hysbysu nad yw wedi cael caniatâd yn ystod cyfnod yr hysbysiad, ond bod y cyfnod moratoriwm wedi dod i ben (yn amodol ar unrhyw gais i ymestyn y cyfnod moratoriwm). Edrychwch ar Ddeddf Enillion Troseddol 2002, adran 335(2) a 335(4).

Datgeliadau gofynnol:



Datgeliad awdurdodedig:



## PROBLEMAU GYDA'R DREFN DDATGELU BRESENNOL

- 1.14 Cyflwynir nifer fawr o adroddiadau i'r UKFIU bob blwyddyn. Mae'r nifer wedi dyblu yn y deg mlynedd ddiwethaf ac mae'n parhau i gynyddu.<sup>7</sup>
- 1.15 Mae'r UKFIU wedi derbyn a phrosesu 463,938 SAR rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 9.6% ar y nifer o SAR yn 2016-17. Mae'r NCA wedi disgrifio hyn fel "y nifer fwyaf erioed".
- 1.16 Yn ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn gynnar yn y prosiect, clywodd Comisiwn y Gyfraith bryderon bod nifer o'r SAR sy'n cael eu cyflwyno o ansawdd isel. Gall SAR o ansawdd uchel – hynny yw SAR sy'n llawn data, ac sy'n cael eu cyflwyno i'r UKFIU mewn fformat hawdd ei brosesu – ddarparu tystiolaeth o wyngalchu arian ar waith. Yn ogystal, hwy yw un o'r prif ddulliau rhannu gwybodaeth a chynhyrchu gwybodaeth i asiantau gorfodi'r gyfraith i ymchwilio i droseddau ac erlyn yn fwy cyffredinol. Ar y llaw arall, gallai SAR o ansawdd isel olygu cymaint neu fwy o amser i'w cyflwyno a'u prosesu ond dim ond gwybodaeth ddefnyddiol gyfyngedig, os o gwbl, sydd ynddynt.
- 1.17 Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith ddadansoddiad annibynnol o sampl o SAR a gyflwynwyd i'r UKFIU a chanfuwyd bod sail gadarn i'r pryderon hyn.

**“Er bod SAR o ansawdd uchel yn cael eu derbyn, mae pryderon ynglŷn â'r lefel isel o gyflwyno SAR mewn nifer o sectorau, gan gynnwys rhai sy'n cael eu nodi fel rhai risg uchel, a'r nifer fawr o SAR o ansawdd isel sy'n cael eu cyflwyno, hyd yn oed ymhlith banciau, sy'n cyflwyno 85% o SAR sy'n cael eu cyflwyno.”** - Adroddiad Cyd-werthuso Tasglu Gweithredu Ariannol y Deyrnas Gyfunol (2018) t 24.

- 1.18 Daethom i'r casgliad bod y symiau mawr o ddatgeliadau yn cael eu hachosi, yn rhannol, gan ddiffiniad cyffredinol o "eiddo troseddol" yn adran 340 POCO, sy'n ei gwneud yn ofynnol i roi gwybod am achosion a amheuir o wyngalchu enillion unrhyw ymddygiad troseddol.
- 1.19 Clywsom dystiolaeth hefyd bod y bygythiad o atebolrwydd troseddol unigol i'r swyddogion perthnasol sy'n gweithio yn y sector adrodd (e.e. swyddogion banc a'r rhai mewn cwmnïau cyfreithiol a gwerthwyr tai) bod methiant i wneud datgeliad yn annog adrodd amddiffynnol. Mae adrodd gor-ofalus yn fwy tebygol o greu SAR o ansawdd isel a hyd yn oed SAR nad ydynt yn cyflawni'r trothwy ar gyfer adrodd yn yr achos cyntaf.
- 1.20 Canfuom dystiolaeth anecdotaidd ac empirig hefyd i gefnogi ein casgliad dros dro bod nifer sylweddol o adroddwyr wedi camddeall eu goblygiadau cyfreithiol o dan Ran 7 POCA. Un o'r rhesymau dros hyn oedd goruchwyliaeth dameidiog yn y gyfundrefn gwrth-wyngalchu arian. Er gwaethaf yr holl ymdrechion, mae hyn wedi arwain at ddiffyg unffurfiaeth mewn canllawiau cymeradwy, gyda dehongliadau cyferbyniol o'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r drefn gwrth-wyngalchu arian. Mae'r diffyg eglurder hwn yn ychwanegu at ddryswch a chamddeallttriaeth adroddwyr pan fyddant yn cymhwyso egwyddorion y drefn.

---

<sup>7</sup> Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Adroddiad Blynnyddol SAR 2017 a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, "[Adroddiad Blynnyddol Adroddiadau Gweithgarwch Amheus \(SAR\) 2018](#)", t 3.

- 1.21 Mae hyn wedi creu costau i'r sector preifat ac asiantau gorfodi'r gyfraith. Mae adnoddau gwerthfawr yn cael eu gwastraffu gan asiantau gorfodi'r gyfraith yn prosesu datgeliadau awdurdodedig diangen, amddiffynnol ac o ansawdd isel.
- 1.22 Fodd bynnag, mae angen i'r drefn gyflawni cydbwysedd anodd rhwng tair set o fuddiannau: buddiannau'r asiantau gorfodi'r gyfraith sy'n derbyn y wybodaeth, adroddwyr sy'n ysgwyddo'r baich o fonitro gweithgarwch amheus a'u hadrodd i'r asiantau gorfodi'r gyfraith a'r rhai sy'n destun adroddiad (er enghraifft, y cwsmer banc y mae eu cyfrif wedi'i rewi pan wneir datgeliad awdurdodedig).
- 1.23 I'r asiantau gorfodi'r gyfraith mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng derbyn symiau enfawr o wybodaeth am weithgarwch amheus a gwybodaeth sy'n cynnwys rhagor o fanylion am y gweithgarwch.
- 1.24 I'r rhai sy'n destun gofyniad adrodd, gall y baich fod yn sylweddol. Mae cydymffurfio â goblygiadau adrodd yn ddrudd. Mae UK Finance<sup>8</sup> yn amcangyfrif bod ei aelodau yn gwario o leiaf £5 biliwn yn flynyddol ar gydymffurfiaeth graidd troseddau ariannol.<sup>9</sup>
- 1.25 Mae yna risg hefyd o niwed i enw da neu niwed economaidd i destun datgeliadau. Gallai'r amhariad hwn amrywio o anghyfleustra dros dro i galedi economaidd difrifol os bydd cyfrif banc testun adroddiad yn cael ei rewi ac na allant gael mynediad i'w harian. Mewn achos eithafol, gall unigolyn ganfod bod eu cyfrif banc wedi'i gau.
- 1.26 Dywedodd un bargyfreithiwr y bu i ni ymgynghori ag ef yn ystod y prosiect bod mynediad wedi'i gyfyngu i'w gyfrifon personol a busnes yn ystod cyfnod y Nadolig. Dim ond £20 o arian parod a oedd ganddo ac nid oedd ganddo fynediad at unrhyw arian. Oherwydd ei fod yn poeni na allai dalu ei forgais na thalu ei gyflogeion, gwnaeth gais am orchymyn llys gyda chymorth cyfaill oes a dalodd y ffioedd llys angenrheidiol. Llwyddodd i gael mynediad i'w gyfrifon, fodd bynnag cyflwynodd y banc hysbysiad cau iddo'n ddi-oed a oedd yn ei hysbysu nad oeddent yn darparu gwasanaethau bancio personol na busnes iddo mwyach. Gan adlewyrchu ar hyn, soniodd am yr anhawster mawr a gafodd i agor cyfrifon newydd gyda banc ar y stryd fawr.

## EIN PROSES

- 1.27 Wrth fynd i'r afael â'r dasg hon, bu i ni gwrdd yn rheolaidd â'r rhai sy'n gweithio yn y maes gwrth-wyngalchu arian i glywed sut mae'r drefn yn gweithredu. Bu i ni ymgysylltu â staff yn UKFIU, cynrychiolwyr o asiantau eraill gorfodi'r gyfraith ac aelodau'r sector rheoledig<sup>10</sup> i glywed yn uniongyrchol am eu profiad o'r drefn ganiatâd yn benodol.

<sup>8</sup> Cymdeithas fasnach sy'n cynrychioli'r diwydiant bancio a chyllid sy'n gweithredu yn y DU, sef Cymdeithas Bancwyr Prydain gynt

<sup>9</sup> Fe wnaeth Cymdeithas Bancwyr Prydain (UK Finance erbyn hyn) amcangyfrif bod ei aelodau yn gwario o leiaf £5 biliwn bob blwyddyn ar gydymffurfio â pholisïau troseddau ariannol craidd, <https://www.bba.org.uk/policy/bba-consultation-responses/bba-response-to-cutting-red-tape-review-effectiveness-of-the-uks-aml-regime>. Nid yw'r ffigur hwn wedi'i gyfyngu i gydymffurfio sy'n gysylltiedig â Deddf Enillion Troseddau 2002 is-adrannau 327 i 329 a 330 i 332.

<sup>10</sup> Mae'r sector rheoledig wedi'i ddiffinio yn Atodlen 9 Deddf Enillion Troseddau 2002. Defnyddir y term i ddisgrifio busnes y mae eu gweithgarwch yn cyflwyno risg uchel o wyngalchu arian neu gyllido terfysgaeth. Mae'n drosedd i berson "weithredu yn ystod busnes yn y sector rheoledig" i fethu â gwneud datgeliad gofynnol i'r UKFIU.

- 1.28 Yn ogystal, cawsom arbenigedd swyddogion y llywodraeth, academyddion, ymarferwyr cyfreithiol ac aelodau'r farnwriaeth i ddeall sut y gellir gwella'r system bresennol. Clywsom brofiadau personol y rhai yr oedd eu cyfrif personol neu fusnes wedi'u rhewi, oherwydd eu bod wedi bod yn destun datgeliad, ac yna eu hail-agor.
- 1.29 Ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori a chynhaliwyd cyfnod ymgynghori lle gwahoddwyd rhanddeiliaid ac unigolion i roi sylw ar ein cynigion dros dro.
- 1.30 Yn dilyn lansio ein hymgynghoriad, fe wnaethom gynnal symposiwm i rannu ein cynigion dros dro. Mynychwyd y digwyddiad gan 100 o unigolion sy'n gweithio yn y maes.
- 1.31 Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori tan 5 Hydref. Fe wnaethom dderbyn cyfanswm o 56 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd yr ymatebion hyn gan:
- 12 sefydliad yn y sector rheoledig;
  - 19 awdurdod goruchwyliol, cyrff neu sefydliadau masnach priodol eraill;
  - 5 awdurdod heddlu ac erlyn;
  - 16 unigolyn, ymarferwyr ac academyddion;
  - 3 sefydliad anllywodraethol;
  - ymateb ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a Thrysorlys EM.
- 1.32 Mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi hysbysu ein casgliadau, ac rydym yn ddiolchgar i'r unigolion a'r sefydliadau am eu cyfraniad drwy'r broses.
- 1.33 Fe wnaethom gynnal ein dadansoddiad annibynnol ein hunain o SAR. Fe wnaethom archwilio sampl o ddatgeliadau awdurdodedig a oedd yn arwyddocaol yn ystadegol a oedd yn ein galluogi i lunio casgliadau cadarn.<sup>11</sup> Roedd canlyniadau ein dadansoddiad yn gymharol gyson â'r cyflwyniadau manwl a dderbyniwyd yn ystod camau canfod ffeithiau ac ymgynghori'r prosiect.
- 1.34 Fe wnaethom ddarganfod amrywiaeth sylweddol yn ansawdd SAR. Roedd tystiolaeth glir bod rhai adroddwyr wedi camddeall eu goblygiadau cyfreithiol o dan POCA. Nid oedd tua 15% o SAR datgeliadau awdurdodedig yn cyflawni'r trothwy amheuaeth. Os ydym yn tybio bod y gyfran hon yn gynrychioliadol ar draws y 27,471 o ddatgeliadau awdurdodedig a gyflwynwyd rhwng Hydref 2015 a Mawrth 2017, byddai tua 4,121 ohonynt wedi'u cyflwyno'n ddiangen.<sup>12</sup>
- 1.35 Mae'r dehongliad o amheuaeth yn *R v Da Silva*<sup>13</sup> wedi'i fabwysiadu gan y llysoedd, a dibynnir ar y dehongliad hwn fel egwyddor arweiniol gan y rhai â goblygiadau adrodd. Er mwyn cyflawni'r trothwy amheuaeth, mae'n rhaid i adroddwr fodloni'r canlynol:

---

<sup>11</sup> Gan ddefnyddio 'fformiwla Cochran o isafswm maint sampl gyda'n sampl o 536 SAR, gallwn honni gyda lefel hyder o 95% gyda lwfans gwallau o 5%.'

<sup>12</sup> Ffynhonnell: Adroddiad Terfynol, para 5.30.

<sup>13</sup> [2006] EWCA Crim 1654, [2007] 1 WLR 303.



“Rhaid i’r diffynnydd feddwl bod posibilrwydd, a oedd yn fwy na mympwy, bod y ffaith berthnasol yn bodoli.”

**Nid oedd 15% o’r SAR datgeliadau awdurdodedig yn cyflawni’r trothwy amheuaeth, sy’n cynrychioli tua 4,121 o SAR a gyflwynwyd yn ddiangen rhwng Hydref 2015 a Mawrth 2017. Ffynhonnell: Adroddiad Terfynol, para 5.30**

- 1.36 Yn ychwanegol at hyn, roedd adroddwyr ond yn cyfleu seiliau rhesymol dros amau, drwy arddangos un neu fwy o seiliau gwrthrychol, yn 52.4% o’r sampl a ddadansodwyd gennym. Mae hyn yn cynrychioli cyfran sylweddol o ddatgeliadau awdurdodedig a gyflwynir heb seiliau gwrthrychol i’w cefnogi.

**Roedd mwyafrif llethol o ganfyddiadau’r prosiect dadansoddi data yn cefnogi ein harsylwadau cychwynnol bod adroddwyr wedi camddeall eu goblygiadau cyfreithiol o dan POCA. Ffynhonnell: Adroddiad Terfynol.**

## EIN HARGYMHELLION

- 1.37 Bu i ni ystyried cyfres o opsiynau diwygio deddfwriaethol ac anneddfwriaethol. Rydym yn gwneud 17 argymhelliad yn ein hadroddiad, ac rydym yn crynhoi’r rhai mwyafrif arwyddocaol isod.

### Bwrdd Cyngori

- 1.38 Ein prif argymhelliad yw bod Bwrdd Cyngori yn cael ei greu i oruchwylio’r gwaith o lunio canllaw, i barhau i fesur effeithiolrwydd y drefn adrodd a chynghori’r Ysgrifennydd Gwladol ar ffyrdd i’w gwella. Bydd Bwrdd sydd â chyfrifoldeb dros oruchwylio’r drefn yn gwneud y drefn gwrth-wyngalchu arian yn fwy ymatebol i fygythiadau newydd a rhai sy’n datblygu, drwy ddod ag arbenigwyr ynghyd yn y sector cyhoeddus a phreifat.
- 1.39 Rydym yn argymhell hefyd bod y Bwrdd Cyngori, sy’n cynnwys y rhai â’r arbenigedd perthnasol, yn cyfrannu at y dadansoddiad o SAR ar gyfnodau rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau bod effeithiolrwydd y drefn yn cael ei fonitro.

### Cynnal trefn gyson

- 1.40 Yn ein Papur Ymgynghori fe wnaethom gyflwyno’r materion a grëwyd gan y drefn ganiatâd a’r dadleuon o blaid ei chadw. Yn erbyn y cefndir hwn, fe wnaethom ofyn i’r ymgynghoreion a oeddent yn credu y dylid cynnal y drefn ganiatâd.
- 1.41 Roedd y mwyafrif helaeth o ymgynghoreion a ymatebodd i’r cwestiwn hwn o blaid cynnal y drefn ganiatâd. Yn sgil y gefnogaeth aruthrol, rydym yn argymhell cynnal y drefn ganiatâd gyda gwelliannau’n cael ei gwneud i sicrhau ei bod yn fwy effeithlon ac effeithiol.

## Canllaw

1.42 Gall camddealltwriaethau cyffredin a diffyg eglurder ynglŷn â goblygiadau adrodd arwain at wastraffu amser i'r adroddwr ac i'r rhai sy'n prosesu SAR. Er mwyn disodli'r canllaw tameidiog sydd weithiau'n gyferbyniol ar draws y diwydiannau, rydym yn argymhell hefyd bod POCA yn cael ei diwygio er mwyn gosod gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllaw sy'n cwmpasu gweithrediad Rhan 7 POCA i'r graddau y mae'n berthnasol i fusnesau yn y sector rheoledig. Yn benodol, rydym yn argymhell y dylid darparu canllaw ar nifer o gysyniadau statudol allweddol:

- (1) Amheuaeth: helpu adroddwyr i ddeall a chymhwyso prawf *Da Silva*.<sup>14</sup> Dylai hyn annog y ddarpariaeth o wybodaeth fwy manwl mewn SAR a lleihau oedi diangen yn y broses o sicrhau caniatâd.
- (2) "Caniatâd priodol" a "threfniadau gyda chaniatâd ymlaen llaw": er mwyn egluro effaith caniatâd a lleihau dryswch ynghylch terminoleg bresennol;
- (3) Yr eithriad esgus rhesymol: i esbonio beth allai gynrychioli esgus rhesymol a mynd i'r afael ag anghysondeb ar draws gwahanol ddiwydiannau;
- (4) Neilltuo: i ategu ein diwygiadau arfaethedig a fyddai'n galluogi dull gwahanol ar gyfer delio ag eiddo troseddol mewn amgylchiadau penodol.

1.43 Bydd canllawiau yn cynorthwyo'r sector rheoledig i gydymffurfio â'u goblygiadau cyfreithiol o dan POCA.

"Mae'r AS yn cytuno y byddai'n fuddiol i'r DU ddatblygu un ffynhonnell ganllaw awdurdodol, os caiff ei ddatblygu gan bob cyfranogwr...Mae'n amlwg, ar ôl ymgysylltu gydag adroddwyr unigol, bod angen cymorth ar nifer ohonynt." – Ymateb y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan i'r ymgynghoriad.

"Rydym yn cytuno y dylai'r Llywodraeth gynhyrchu canllaw ar y trothwy amheuaeth. Rydym yn argymhell, yn benodol, y dylid llunio rhestr o ffactorau dangosol a allai gyfrannu at neu dynnu oddi ar ganfyddiad bod amheuaeth o wyngalchu arian" – Ymateb Freshfields Bruckhaus Deringer i'r Ymgynghoriad

## Rhagnodi ffurflen

1.44 Er mwyn gwella ansawdd adrodd rydym yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn defnyddio ei bŵer presennol i ragnodi ffurflen SAR. Rydym yn argymhell gwneud y defnydd gorau o dechnoleg newydd i lunio ffurflen ar-lein a fyddai'n cynorthwyo adroddwyr i wneud datgeliadau mwy effeithiol i'r UKFIU. Byddai hyn hefyd yn cyflwyno'r wybodaeth i'r UKFIU ac asiantau gorfodi'r gyfraith mewn fformat hygyrch, hawdd ei ddilyn. Bydd cynllun y ffurflen ragnodedig yn cyfeirio adroddwyr i ddarparu gwybodaeth hollbwysig i asiantau gorfodi'r gyfraith. Bydd ffurflen ragnodedig, ochr yn ochr â'r canllaw, yn galluogi adroddwyr i fod yn fwy hyderus wrth gyfleu eu sail dros amheuaeth.

<sup>14</sup> "Posibilrwydd, a oedd yn fwy na mympwy, bod y ffaith berthnasol yn bodoli"; [2006] EWCA Crim 1654, [2007] 1 WLR 303.

- 1.45 Bydd rhagnodi'r ffurflen hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar sut mae asiantau gorfodi'r gyfraith yn defnyddio SAR. Drwy annog proses lle mae'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys mewn SAR yn cael ei chyflwyno mewn fformat cyson, bydd UKFIU a chyflogeion gorfodi'r gyfraith yn gallu canfod natur amheuaeth yr adroddwyr yn gyflymach a'r manylion allweddol sy'n ei hategu.

"Rydym yn cydweithio i ddiwygio SAR, oherwydd rydym am gael ansawdd nid nifer y SAR a gyflwynir." – Y Gwir Anrhydeddus Ben Wallace AS y Gweinidog Gwladol dros Ddiogelwch wrth gyfeirio at weithio gydag adroddwyr i wella'r broses o adrodd gweithgarwch amheus.

### Cyfyngu cwmpas adrodd

- 1.46 Dangosodd nifer o gategorïau o achosion a oedd yn sbarduno'r goblygiad i wneud datgeliad fethiant i ddarparu gwybodaeth o werth arwyddocaol i asiantau gorfodi'r gyfraith. Heb ddull o eithrio'r achosion hynny o'r goblygiad adrodd, hyd yn oed mewn amgylchiadau pan fo'r adroddwr a'r UKFIU yn credu y byddai'r wybodaeth a ddarparwyd yn annhebygol o fod yn ddefnyddiol, mae adnoddau'n cael eu gwastraffu yn prosesu datgeliadau annefnyddiol a diangen.
- 1.47 Ym mhenodau 4 a 7 ein hadroddiad, buom yn ystyried a oedd teilyngdod i leihau cwmpas er mwyn cael gwared ar y rhai â gwerth gwybodaeth gyfyngedig drwy:
- (1) cyfyngu cwmpas adrodd am bob trosedd i ddim ond y troseddau difrifol, fel y'u diffinnir; a
  - (2) ymestyn yr amgylchiadau lle gallai fod gan adroddwr esgus rhesymol i beidio gwneud datgeliad.
- 1.48 Yn y pen draw, daethom i'r casgliad y byddai'n ddymunol cynnal y sefyllfa bresennol ar gyfer adrodd pob trosedd. Y prif reswm am hyn yw na fydd gwerth eiddo troseddol tybiedig yn cyd-fynd o reidrwydd â difrifoldeb y drosedd, neu pa mor werthfawr yw'r wybodaeth. Mae hyn yn arbennig o wir am SAR cyllido terfysgaeth a amheuir. Gallai trothwy difrifoldeb greu beichiau ychwanegol hefyd i adroddwyr a fyddai'n gorfod nodi'r drosedd sylfaenol.

"Nid ydym yn credu y byddai dull troseddau difrifol yn datrys heriau'r dull pob trosedd heb greu problemau newydd sylweddol." Cymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr

"Rydym yn cytuno na fyddai'n fuddiol ychwanegu haen ychwanegol o ddadansoddiad diangen, wrth ystyried a oes angen cyflwyno SAR, i benderfynu a oedd yr ymddygiad sylfaenol wedi'i gynnwys yn y diffiniad o "droseddau difrifol". – Slaughter a May

### Yr angen am drefn gytbwys

- 1.49 Ym mhennod 8 gwnawn ddau argymhelliad sy'n ceisio mynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng buddiannau cystadleuol y drefn (asiantau gorfodi'r gyfraith, adroddwyr a'r rhai sy'n destun SAR). Fe esboniwn y gall yr arfer o rewi cyfrifon banc cyfan, waeth beth

yw gwerth yr eiddo yr amheuir ei fod yn droseddol, greu canlyniadau economaidd difrifol i unigolyn neu fusnes. Felly, rydym yn argymhell y dylid diwygio POCA i greu eithriad i ganiatáu i eiddo troseddol gael ei neilltuo gan sefydliadau credyd ac ariannol. Mae hyn yn darparu ymateb mwy cymesur i natur y gweithgarwch troseddoldeb (a amheuir).

- 1.50 Rydym hefyd yn argymhell ychwanegu darpariaeth sy'n galluogi i arian gael ei ryddhau gan Farnwr Llys y Goron pan wneir cais am estyniad i'r cyfnod moratoriwm.

#### Gofynion adrodd ychwanegol

- 1.51 Ym mhennod 10 ein hadroddiad, fe wnaethom ystyried a fyddai'n briodol argymhell cyflwyno pwerau newydd, fel adrodd thematig neu Orchmynion Targedu Daearyddol. Mae'r dulliau adrodd hyn yn diddymu disgresiwn yr adroddwr i asesu amheuaeth, yn hytrach bydd yn ofynnol iddynt wneud adroddiadau os bydd meini prawf penodol yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, gallai goblygiad i adrodd gael ei sbarduno os bydd trafodiad yn digwydd mewn lleoliad daearyddol rhagnodedig. Nid oedd pob un o'r ymgylgoreion wedi'u hargyhoeddi bod angen gofynion adrodd ychwanegol ac yn y pen draw, roeddem o'r farn nad oedd yr achos dros newid wedi'i gyflwyno hyd yma. Felly, rydym yn argymhell bod angen cynnal ymchwil pellach i fudd dull adrodd wedi'i dargedu, ochr yn ochr â dadansoddiad manwl o'r budd ariannol. Gellir cyflwyno gorchymyn newydd o'r fath ar sail beilot er mwyn asesu ei effeithiolrwydd. Bydd hyn yn cadarnhau a fyddai'r baich adrodd ychwanegol yn gymesur â buddiannau cronfa ddata fwy.

#### **Ein cynigion:**

- (1) **gweithio tuag at drefn fwy cymesur a hawdd ei defnyddio;**
- (2) **cadarnhau cwrpas y dull adrodd;**
- (3) **lleihau'r baich o wneud a phrosesu datgeliadau ar gyfer y sector rheoledig a'r UKFIU;**
- (4) **cynhyrchu adroddiadau gwell ar gyfer asiantau gorfodi'r gyfraith.**